ADDYSG CYMRU
EDUCATION WALES
cenhadaeth ein cenedl | our national mission

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Casglu Data Cenedlaethol (CDC)

## Cwestiynau cyffredin

Casglu data CDC ar gyfer blwyddyn academaidd 2023/2024

Dyddiad cyhoeddi: 12 Ebrill 2024
Fersiwn: 1.0

# Casglu Data Cenedlaethol

| | |
|---|---|
| **Cynulleidfa** | Penaethiaid, athrawon a chyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir, awdurdodau lleol, a chyrff cenedlaethol sydd â diddordeb mewn addysg. |
| **Trosolwg** | Mae'r ddogfen hon yn egluro'r trefniadau casglu data ac adrodd ar gyfer blwyddyn ysgol 2023/24. |
| **Camau i'w cymryd** | Rhaid i benaethiaid, athrawon a chyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir ac awdurdodau lleol sicrhau y caiff y gofynion yn y ddogfen hon eu gweithredu erbyn y dyddiadau a nodir. |
| **Rhagor o wybodaeth** | Os oes angen mwy o gyngor arnoch ar lenwi unrhyw ran o'r casgliad yma, cysylltwch â'ch awdurdod lleol yn y lle cyntaf.<br><br>Dylid cyfeirio ymholiadau am y ddogfen hon at:<br><br>Y Gangen Gwybodaeth a Gwella Ysgolion<br>Y Gyfarwyddiaeth Addysg<br>Llywodraeth Cymru<br>Parc Cathays<br>Caerdydd<br>CF10 3NQ<br>Ffôn: 0300 062 5014<br>e-bost: NDCmailbox@llyw.cymru<br><br>@LlC_Addysg<br><br>@AddysgCymru |
| **Copïau ychwanegol** | Mae'r ddogfen yma ar gael ar wefan Llywodaeth Cymru yn:<br>llyw.cymru/casglu-data-cenedlaethol-ysgolion |

Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Gymraeg.
This document is also available in Welsh.

© Hawlfraint y Goron Ebrill 2024
WG48272

# Cynnwys


1. Materion cyffredinol 2
2. Materion cynradd 8
3. Materion uwchradd 9
4. Materion ysgolion arbennig 10
5. Ble mae rhagor o gymorth ar gael? 10

## 1. Materion cyffredinol

### 1.1 Nid yw Llywodraeth Cymru'n cyhoeddi data am asesiadau athrawon ar lefel yr ysgol nac ar lefel yr awdurdod lleol mwyach. A oes angen i mi dynnu sylw at ddisgyblion sydd â statws Newydd i System Addysg sy'n Seiliedig ar y Gymraeg neu'r Saesneg (NEWBES) mwyach?

Oes.

### 1.2 *Mae disgybl wedi ymuno â'r ysgol yn ddiweddar iawn; drwy gydol yr amser yn y gorffennol, addysgwyd y disgybl dan sylw gartref. A ellir ei ystyried yn ddisgybl sy'n Newydd i System Addysg sy'n Seiliedig ar y Gymraeg neu'r Saesneg (NEWBES)?*

Na ellir, oherwydd nad yw'n bodloni'r meini prawf llawn ar gyfer statws NEWBES, sef:

- nad y Gymraeg na'r Saesneg yw iaith gyntaf y plentyn;
- bod y plentyn wedi cyrraedd o system addysg nad yw'n seiliedig ar y Gymraeg na'r Saesneg; ac
- ymunodd â system addysg Deyrnas Unedig (DU) ar neu ar ôl 1 Medi 2022.

### 1.3 Ar fy System Gwybodaeth Reoli (MIS), nid yw ffigurau'r flwyddyn flaenorol yn cael eu dangos mewn ffurf gyson; weithiau dangosir llinell doriad yn hytrach na sero.

Mae llinell doriad yn dynodi bod y ffigur yn rhy fach i'w ddyfynnu, er ei fod yn fwy na sero.

### 1.4 Gadawodd disgybl ein hysgol cyn y torbwynt. Rhoddwyd gwybod i'r ysgol, fodd bynnag, nad yw'r disgybl hwnnw, hyd yma, wedi dechrau mynd i'r ysgol yn yr awdurdod arall. A fydd rhaid i'n hysgol ni adrodd am ganlyniadau CDC y disgybl hwnnw, er ei fod wedi gadael cyn y dyddiad cofrestru penodedig?

Bydd, oherwydd nad yw'r disgybl wedi bod ar gofrestr ysgol arall ar ôl gadael eich ysgol chi.

**1.5 Os bu disgybl unwaith yn NEWBES, cedwir yr wybodaeth honno, hyd yn oed pan fo'r cyfnod o ddwy flynedd wedi dod i ben. Ar ôl diwedd y cyfnod hwnnw o ddwy flynedd, a fydd canlyniadau'r disgybl yn cael eu cynnwys yng nghanlyniadau'r prif gohort yn awtomatig?**

Byddant.

**1.6 Os yw disgybl yn ymuno ag ysgol cyfrwng Cymraeg, o ysgol Cyfrwng Saesneg ac yntau heb unrhyw sgiliau iaith yn y Gymraeg, a yw'n cyfrif fel disgybl NEWBES?**

Nac ydyw, oherwydd nad yw'n bodloni'r meini prawf llawn ar gyfer statws NEWBES, sef:

- nad y Gymraeg na'r Saesneg yw iaith gyntaf y plentyn;
- bod y plentyn wedi cyrraedd o system addysg nad yw'n seiliedig ar y Gymraeg na'r Saesneg; ac
- ymunodd â system addysg Deyrnas Unedig (DU) ar neu ar ôl 1 Medi 2022.

Bydd gofyn i'r ysgol asesu disgyblion o'r fath ac adrodd ar eu canlyniadau, yn rhan o'r broses CDC.

Dylid defnyddio'r cod 'N' os nad oes modd i'r ysgol asesu cyrhaeddiad y disgybl yn asesiadau'r athrawon

**1.7 Beth os bydd disgybl yn ymuno ag ysgol cyfrwng gwahanol ar ddyddiad sy'n agos iawn at y dyddiad ar y gofrestr ac nad oes ganddo unrhyw sgiliau yn iaith yr ysgol newydd neu ychydig iawn o sgiliau?**

Os bydd disgybl yn trosglwyddo o ysgol cyfrwng Cymraeg i ysgol cyfrwng Saesneg neu i'r gwrthwyneb ar ôl 1 Ionawr gall canlyniadau'r disgybl hwnnw ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 3 gael eu cyflwyno ym mha iaith bynnag sy'n galluogi'r dysgwr i ddangos ei allu yn y ffordd orau bosibl.

### *1.8 Beth yw'r codau ar gyfer Deilliannau'r Cwricwlwm Cenedlaethol?*

NCO1 – C

NCO2 – B

NCO3 – A

### 1.9 Pa god y dylid ei ddefnyddio i gofnodi bod disgybl ar hyn o bryd yn gweithio ar lefel islaw'r lefel a ddisgrifir gan Ddeilliant 1 y Cwricwlwm Cenedlaethol?

Ar gyfer disgybl sy'n gweithio tuag at NCO1, dylid cofnodi'r cod 'N', fel y cod sy'n gweddu orau i gyrhaeddiad y dysgwr.

### 1.10 Sut mae trosi graddfeydd p ar gyfer y CDC mewn perthynas â disgybl?

Cyfres o ddisgrifiadau yw'r graddfeydd p a ddefnyddir yng nghwricwlwm Lloegr i gofnodi cyflawniad disgyblion gydag anghenion addysgol arbennig (AAA) sy'n gweithio tuag at lefel gyntaf y Cwricwlwm Cenedlaethol (lefel 1). Ni ddefnyddir y graddfeydd **o gwbl** yn y cwricwlwm Cymreig.

Nid ydym yn cofnodi graddfeydd p yn y CDC. Yng Nghyfnod Allweddol 3, cofnodir Deilliannau 1-3 y Cwricwlwm Cenedlaethol a lefelau 1 – 8 y Cwricwlwm Cenedlaethol.

Mae disgrifiadau o'r lefelau i'w cael yn y Gorchmynion Cwricwlwm Cenedlaethol. Mae canllawiau wedi'u llunio a fydd yn helpu â rhoi cwricwlwm ysgolion ar waith. Gallwch weld y dogfennau hyn ynghyd â gwybodaeth berthnasol arall, dulliau gweithredu eraill ac ymchwil ar wefan Dysgu Cymru:

Cwricwlwm i Gymru - Hwb (gov.wales)

### 1.11 Mae disgybl sydd ar gofrestr yr ysgol yn cael ei addysgu gartref yn unig. Nid oes neb o'r ysgol erioed wedi asesu ei gyrhaeddiad. Sut y dylid cofnodi ei gyrhaeddiad?

Defnyddiwch y cod 'N'. Mae'r canllawiau yn datgan y gall N fod yn briodol os nad yw'r disgybl, oherwydd salwch, beichiogrwydd neu sefyllfa anarferol arall, wedi mynychu'r ysgol am gyfnod estynedig o amser ac nad aseswyd unrhyw lefel CC flaenorol.

Gweler y ddogfen CDC a threfniadau cofnodi i gael mwy o wybodaeth.

### 1.12 Ni all disgybl gymryd rhan mewn pwnc penodol. A ddylid defnyddio'r cod 'D' ynteu 'N'?

Dylid defnyddio'r cod 'D' pan fo'r disgybl wedi ei ddatgymhwyso'n ffurfiol o'r cyfan neu ran o'r Cwricwlwm Cenedlaethol o dan yr amgylchiadau penodol a bennir yn adrannau 364-367 o Ddeddf Addysg 1996, y rhoddir effaith iddynt bellach gan adrannau 113-116 o

Ddeddf Addysg 2002.

Nid yw'r cod datgymhwyso 'D' yn ddilys ac eithrio o dan yr amgylchiadau penodol hynny, ac **NI DDYLID** ei ddefnyddio mewn unrhyw amgylchiadau eraill.

Dylid defnyddio'r cod 'N' yn yr amgylchiadau eithriadol pan nad oes gan yr athro dystiolaeth neu wybodaeth ddigonol i seilio asesiad gan athro arni.

Yn gyffredinol, hyd yn oed yn achos disgybl sydd â hanes o bresenoldeb gwael, byddem yn disgwyl i asesiad gael ei wneud ar sail tystiolaeth a gwybodaeth a gasglwyd pan oedd y disgybl yn bresennol.

Am ragor o wybodaeth, dylid cyfeirio at y ddogfen ar CDC a'r trefniadau cofnodi.

### 1.13 Mae gennym ddysgwr ym Mlwyddyn 9 nad yw'n symud i'r cyfnod nesa. A ddylai gael ei asesu ac a ddylai ei ganlyniadau gael eu cyflwyno yn rhan o'r broses CDC?

Os yw'r disgybl yn BCC 9, ac os bydd yn mynd yn ei flaen i'r cyfnod allweddol nesaf yn y flwyddyn academaidd ganlynol, bydd yn gymwys i sefyll yr asesiadau statudol a dylai ei ganlyniadau gael eu cofnodi yn CDC. Ar gyfer pob cyfnod, rhaid i ddysgwyr sefyll yr asesiadau statudol (hynny yw, rhaid iddynt dderbyn canlyniad asesiad gan yr athro ar ddiwedd y cyfnod) unwaith yn unig.

Gan fod eich dysgwr yn aros ym Mlwyddyn 9 ac felly, gan nad yw'n symud yn ei flaen i Gyfnod Allweddol 4, ni fydd yn derbyn canlyniad asesiad gan yr athro ar ddiwedd y Cyfnod Allweddol 3 eleni.

### 1.14 A oes yn rhaid i mi adrodd wrth Lywodraeth Cymru ar gynnydd disgyblion yn unol â'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd?

Bwriedir i asesiadau a gaiff eu cynnal yn unol â'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd gael eu defnyddio er gwybodaeth gan ysgolion ac athrawon. Eu nod yw eu cynorthwyo i olrhain cynnydd dysgwyr a llywio gwaith cynllunio o safbwynt yr ystafell ddosbarth a'r cwricwlwm.

**Nid oes unrhyw ymarfer casglu data cenedlaethol mewn perthynas ag asesiadau a gaiff eu cynnal gan ddefnyddio'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd.**

**1.15 Mae gennym ddisgybl gyda statws NEWBES a gyrhaeddodd yn y Deyrnas Unedig (DU) sawl mis cyn y dyddiad dechreuwyd yn yr ysgol. A ydym yn defnyddio'r dyddiad daethant i mewn i'r DU neu'r dyddiad dechrau yn yr ysgol i benderfynu a allant gael eu heithrio o ystadegau'r ysgol?**

Dylid defnyddio'r dyddiad ymunodd y disgybl â system addysg y Deyrnas Unedig (DU).

Gall penaethiaid peidio â chynnwys canlyniadau disgyblion sy'n newydd i system addysg Cymru neu Loegr (NEWBES) mewn ystadegau ar lefel ysgol ac ar lefel yr awdurdod lleol, os:

- nid Cymraeg na Saesneg yw iaith gyntaf y disgybl; **ac**
- mae'r plentyn wedi cyrraedd o system addysg nad yw'n seiliedig ar y Gymraeg na'r Saesneg; **ac**
- ymunodd y disgybl â system addysg y Deyrnas Unedig (DU) ar 1 Medi 2022 neu ar ôl hynny.

**1.16 *Mae gen i 30 disgybl yn fy nghorot CA3. Mae MIS yn cofnodi bod 100% ohonynt wedi cyrraedd lefel 4 + yn Saesneg. Sut mae hyn yn bosib pan fo'r ganran ohonynt sy'n cyrraedd lefel 4+ ar gyfer pob targed cyrhaeddiad fel a ganlyn:***
***66.6% - Llafaredd***
***66.6% - Darllen***
***66.6% - Ysgrifennu***

Mae'n bosib i hyn ddigwydd.

Ar lefel disgybl, mae'n bosib cyrraedd lefel y pwnc 4 yn Saesneg heb i'r holl dargedau cyrhaeddiad fod ar lefel 4. Er enghraifft, oherwydd talgrynnu, byddai Saesneg lefel 4 yn cael ei gofnodi ar gyfer disgybl sydd â'r canlyniadau canlynol yn ei dargedau cyrhaeddiad:

Llafaredd - lefel 4
Darllen – lefel 4
Ysgrifennu – lefel 3

Mae Atodiad C a D o'r ddogfen CDC a'r trefniadau cofnodi yn esbonio sut i gyfrifo lefel y pwnc o'r targedau cyrhaeddiad atodol (bydd y pwysoliad ar gyfer pob targed cyrhaeddid yn wahanol yn ddibynnol ar y pwnc).

Ar lefel y cohort cyfan, mae'n bosib i 100% o'r cohort gyrraedd lefel 4 mewn Saesneg gyda dim ond 66.6% yn cyrraedd lefel 4 ym mhob un o'r targedau cyrhaeddiad. Er enghraifft:

| | Lefel | | | |
|---|---|---|---|---|
| Cyfanswm o 30 yn y cohort gyda: | Llafaredd | Darllen | Ysgrifennu | Pwnc Saesneg |
| a. 10 yn cyrraedd | 3 | 4 | 4 | 4 |
| b. 10 yn cyrraedd | 4 | 3 | 4 | 4 |
| c. 10 yn cyrraedd | 4 | 4 | 3 | 4 |
| % o'r holl ddisgyblion sy'n cyrraedd lefel 4 | 66.6 | 66.6 | 66.6 | 100 |

## 2. Materion cynradd

### 2.4 A ddylwn i gyflwyno deilliannau Asesiadau Sylfaenol ar gyfer unrhyw ddisgybl?

Na ddylech. O 2022/23 ymlaen, nid oes unrhyw ofyniad statudol ar ysgolion i bennu deilliannau Asesiadau Sylfaenol.

### 2.5 A ddylwn i gyflwyno deilliannau asesiadau diwedd y Cyfnod Sylfaen ar gyfer unrhyw ddisgybl?

Na ddylech. O 2021/22 ymlaen, nid oes unrhyw ofyniad statudol ar ysgolion i bennu deilliannau asesiadau'r Cyfnod Sylfaen.

### 2.6 A ddylwn i gyflwyno deilliannau asesiadau diwedd y Cyfnod Allweddol 2 ar gyfer unrhyw ddisgybl?

Na ddylech. O 2021/22 ymlaen, nid oes unrhyw ofyniad statudol ar ysgolion i bennu deilliannau asesiadau Cyfnod Allweddol 2.

### 2.13 Pa wybodaeth gymharol y dylwn ei chynnwys gydag adroddiadau'r disgyblion yn Adroddiad Blynyddol fy Llywodraethwyr a Phrosbectws yr Ysgol?

Yn ôl y Rheoliadau, nid yw'n ofynnol cynnwys yr adroddiadau cymharol mwyaf diweddar ynghylch safonau gyda phob adroddiad blynyddol i rieni neu ddisgyblion sy'n oedolion yn Adroddiad Blynyddol y Llywodraethwyr a Phrosbectws yr Ysgol.

Ar 31 Gorffennaf 2018 daeth y Rheoliadau Addysg (Diwygiadau sy'n Ymwneud â Gwybodaeth Asesiadau Athrawon) (Cymru) 2018 i rym. O ganlyniad i'r Rheoliadau hyn, ni fydd Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi mwyach y data ar gyfer asesiadau athrawon ar lefel yr ysgol neu ar lefel yr awdurdod lleol ac felly ni fydd yn cynhyrchu mwyach yr Adroddiadau Cymharol ar gyfer Ysgolion i ysgolion eu cyhoeddi.

## 3. Materion uwchradd

### 3.1 Ar gyfer Ieithoedd Tramor Modern yng Nghyfnod Allweddol 3, a fydd yr ysgol yn adrodd ar dargedau cyrhaeddiad ynteu lefel pwnc?

Bydd yr ysgol yn adrodd ar y tri tharged cyrhaeddiad yn y system gwybodaeth reoli, a bydd y system hon wedyn yn cyfrifo'r lefel pwnc gyffredinol.

Mae adrodd wrth Lywodraeth Cymru ar y targedau cyrhaeddiad yn ddewisol; mae adrodd ar lefelau pwnc yn orfodol.

### 3.2 Mae ysgol uwchradd yn ddiweddar wedi derbyn disgybl o wlad dramor, na all siarad llawer o Saesneg. Nid yw chwaith wedi treulio llawer o amser mewn ysgol, ac ni wyddom sut y dylid cwblhau'r datganiad CDC ar ei gyfer. A ddylid ei adael yn wag ynteu defnyddio 'N'?

Dylid asesu'r disgybl a chofnodi ei lefel cyrhaeddiad.

Os gall athrawon wneud asesiad ar sail gwybodaeth flaenorol am gyrhaeddiad y disgybl, dylech gofnodi'r lefelau a ddyrennir. Os na all athrawon wneud asesiad, cofnodwch y cod 'N'.

Mae'n bosibl bod y disgybl yn gymwys am statws NEWBES. Mae hynny'n dibynnu ar y dyddiad y'i derbyniwyd i'r ysgol.

### 3.3 Derbyniwyd disgybl i flwyddyn 11 yn yr ysgol hon ym mis Mawrth, ac felly ni chofnodwyd y disgybl yn y CYBLD yn Ionawr. Mae gan y disgybl AAA/ADY, ac ni fydd yn sefyll unrhyw arholiadau cyhoeddus yn yr haf eleni. A fydd perfformiad y disgybl hwn yn cyfrif tuag at y Crynodeb o Berfformiad Ysgol Uwchradd (SSSP) ar gyfer yr ysgol hon?

Na. Ni fydd perfformiad y disgybl hwn yn cyfrif tuag at SSSP eich ysgol. CYBLD mis Ionawr yw ffynhonnell y data ar gyfer y cohort er mwyn adrodd ar berfformiad CA4.

Mae gwybodaeth am y CA3 ar gyfer ystadegau ar asesiadau yn cael ei chasglu drwy CDC.

### 3.4 *Pa wybodaeth gymharol ynglŷn â Chyfnod Allweddol 3 y dylwn ei chynnwys gydag adroddiadau'r disgyblion yn Adroddiad Blynyddol fy Llywodraethwyr a Phrosbectws yr Ysgol?*

Yn ôl y Rheoliadau, nid yw'n ofynnol cynnwys yr adroddiadau cymharol mwyaf diweddar ynghylch safonau gyda phob adroddiad blynyddol i rieni neu ddisgyblion sy'n oedolion yn Adroddiad Blynyddol y Llywodraethwyr a Phrosbectws yr Ysgol.

Ar 31 Gorffennaf 2018 daeth y Rheoliadau Addysg (Diwygiadau sy'n Ymwneud â Gwybodaeth Asesiadau Athrawon) (Cymru) 2018 i rym. O ganlyniad i'r Rheoliadau hyn, ni fydd Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi mwyach y data ar gyfer asesiadau athrawon ar lefel yr ysgol neu ar lefel yr ALl ac felly ni fydd yn cynhyrchu mwyach yr Adroddiadau Cymharol ar gyfer Ysgolion i ysgolion eu cyhoeddi.

## 4. Materion ysgolion arbennig

### 4.1 A oes angen i ysgolion arbennig gyflwyno'r Asesiad Sylfaenol ac elfennau Cyfnod Allweddol 3 o'r CDC??

Nac oes. O 2022/23 ymlaen, nid yw'n ofynnol bellach i ysgolion arbennig gyflwyno elfen Asesiad Sylfaenol nac elfen CA3 y CDC i Lywodraeth Cymru.

## 5. Ble mae rhagor o gymorth ar gael?

### 5.1 Ble mae rhagor o gymorth ar gyfer CDC ar gael?

Caiff y Cwestiynau Cyffredin eu diweddaru o bryd i'w gilydd wrth i faterion eraill godi sy'n berthnasol i lawer o ysgolion. Byddwn yn rhoi'r diweddaraf ar ein gwefan ac yn e-bostio enwau cyswllt yn yr awdurdodau lleol. Mae nodiadau cwblhau hefyd ar gael ar ein gwefan yn https://llyw.cymru/casglu-data-cenedlaethol-ysgolion.

**CDC**
Os oes gennych ymholiadau ar CDC cysylltwch â ni yn NDCmailbox@llyw.cymru.